

Polisi Di-fwg

Diben

Datblygwyd y polisi hwn i amddiffyn pob gweithiwr, defnyddwyr gwasanaeth ac ymwelwyr rhag dod i gyswllt â mwg ail-law ac i gynorthwyo i gydymffurfio â darpariaethau di-fwg Deddf Iechyd 2006 a'r rheoliadau cysylltiedig ar gyfer Cymru, sydd i fod i ddod i rym yn 2007.

Mae dod i gysylltiad â mwg ail-law, a elwir hefyd yn ysmegu goddefol yn cynyddu risgiau clefydau megis canser yr ysgyfaint, clefyd y galon, canser yr ysgyfaint a chlefydau eraill. Nid yw awyru neu wahanu ysmygwyr oddi wrth rai nad ydynt yn ysmegu o fewn yr un ystafell yn atal pobl rhag wynebu perygl posibl.

Y Polisi

Polisi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw bod ei fan gwaith yn ddi-fwg a bod gan bob un o'i weithwyr hawl i weithio mewn awyrgylch di-fwg. Daw'r polisi hwn i rym ar 1 Ionawr 2007.

Mae ysmegu wedi'i wahardd ym mhob rhan o'r gweithle, heb unrhyw eithriadau. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gerbyd a logir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac a ddefnyddir ar ei fusnes ef. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff a phob person arall gan gynnwys ymgynghorwyr, contractwyr ac ymwelwyr.

Os bydd aelod o staff neu berson arall yn dymuno ysmegu, yna neilltuwyd yr ardal yn union y tu allan i ddrysau blaen a chefn yr adeilad i'r diben hwnnw. Dylai gweddillion cysylltiedig ag ysmegu gael eu rhoi yn y cynwysyddion a ddarperir.

Gweithredu

Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu ac adolygu polisi'n gorwedd yn nwylo'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'n rhaid i'r holl staff lynu at a hwyluso gweithredu'r polisi hwn.

Rhaid i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sicrhau bod yr holl weithwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn ac o'u swyddogaeth hwy o ran

gweithredu a monitro. Cyfrifoldeb staff sy'n derbyn ymweliad gan unrhyw ymgynghorydd, contractwr neu ymwelydd fydd sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'i oblygiadau. Bydd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yn sicrhau bod y polisi hwn yn rhan o'r rhaglen gynefino i staff newydd.

Bydd arwyddion "Dim Ysmygu" yn cael eu harddangos yn amlwg fel sy'n ofynnol dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

Diffyg Cydymffurfio

Bydd methu â chydymffurfio â'r polisi hwn yn cael ei ystyried dan drefn ddisgyblu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, er na ddefnyddir hwn ond os bydd aelod o staff yn anwybyddu cais i beidio ag ysmygu oddi mewn i'r adeilad. Gofynnir i unrhyw ymgynghorydd, contractwr neu ymwelydd a fydd yn ysmygu'n groes i'r polisi hwn adael yr adeilad ac adroddir ar y digwyddiad i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a fydd yn ystyried pa gamau pellach i'w cymryd.

Bydd pob digwyddiad o ddiffyg cydymffurfio â hyn yn cael ei adrodd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a fydd yn cadw cofnod.

Help i roi'r gorau i ysmygu

Mae'r ffynonellau canlynol o gymorth ar gael ar gyfer ysmygwyr sydd eisiau rhoi'r gorau iddi:

Llinell Gymorth i Ysmygwyr yng Nghymru: 0800 169 0169. Yn darparu cyngor a deunyddiau hunangymorth

Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru Gyfan: 0800 085 2219.
Gwasanaeth lleol rhad ac am ddim yn darparu cefnogaeth a chwnsela ar gyfer rhoi'r gorau iddi.

Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol